



Lynda Healy  
Rheolwr Tîm Rheoli Adeiladu a Chynlluniau Datblygu  
Gwasanaethau Datblygu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Llawr 1a  
Swyddfeydd y Cyngor  
Canolfan Dinesig  
Glynebwy  
NP23 6XB

20 Chwefror 2020

Annwyl Lynda,

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch i chi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod CDLI cyfredol er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr.

Heb amharu ar bwerau'r Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) i leihau'r risg o gyflwyno cynlluniau nad ydynt yn gadarn drwy wneud sylwadau priodol mor gynnar â phosibl yn ystod camau paratoi'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru'n chwilio am dystiolaeth glir bod y profion o gadernid (a nodir yn y 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol') yn cael eu hystyried.

Mae Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn pennu mai'r blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol allweddol yw'r angen i ddarparu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy greu lleoedd. Mae PCC hefyd yn gofyn am agwedd ehangach, gynaliadwy sy'n ceisio datrys problemau, ac sy'n canolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â nifer o faterion er mwyn cyflawni canlyniadau cynllunio effeithiol. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth y dull gweithredu traddodiadol o ystyried meysydd polisi ar eu pen eu hunain, ac yn cefnogi polisiâu sy'n fwy seiliedig ar leoedd. Rhaid hefyd dangos y saith nod llesiant, ynghyd â'r pum ffordd o weithio sy'n annog pawb i feddwl mewn ffordd integredig a chydweithredol am y broses o lunio polisiâu ac ystyried tueddiadau hirdymor. Caiff y broses o roi meysydd polisi craidd PCC ar waith, fel sicrhau strategaeth ofodol gynaliadwy, tai a lefelau twf economaidd, cyflwyno seilwaith a chreu lleoedd, ei disgrifio'n fanylach yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3). Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau gadw at elfennau craidd y Llawlyfr, yn enwedig y canllawiau a nodir ym Mhennod 5: Paratoi CDLI – Materion Craidd a'r 'rhestr wirio dileu risg' wrth baratoi sail dystiolaeth y cynllun, ac i'w hystyried yng nghynnwys a diwyg y cynllun ei hun. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft er mwyn ymgynghori arno. Disgwylir i'r FfDC gael ei gyhoeddi cyn i'r CDLI gael ei archwilio a'i fabwysiadu o bosibl. **Bydd yn ofynnol i'r CDLI gydymffurfio'n fras â'r FfDC pan gaiff ei fabwysiadu. Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun bod modd cyflawni cydymffurfiaeth gyffredinol.**

## **Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i'r strategaeth ofodol a lefel y cartrefi a'r swyddi a gynigir.**

Fel cynllun newydd, mae'n siomedig nodi na chafodd rhai dogfennau cefndirol pwysig ar faterion sy'n cynnwys darparu safleoedd strategol, astudiaeth hyfywedd lefel uchel, asesiad ynni adnewyddadwy, ac Asesiad cyfredol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr eu cwblhau er mwyn llywio'r Strategaeth a Ffefrir. Mae sail dystiolaeth gadarn yn allweddol er mwyn deall y cynllun yn llawn. Er bod yr ymgynghoriad yn dweud y bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar gyfer y cynllun Adneuo, mae'n anodd gwneud sylwadau ystyrlon ar rai meysydd pwnc ar hyn o bryd gan nad yw'r astudiaethau wedi cael eu cwblhau eto.

Bydd yn hanfodol dangos sut y caiff y strategaeth, safleoedd strategol a dyraniadau a gaiff eu cario drosodd eu cyflawni, a dylai tystiolaeth eich awdurdod yn y cynllun Adneuo gefnogi hyn. Nodir rhagor o sylwadau yn yr atodiad i'r llythyr hwn gyda chanllawiau manwl ychwanegol yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu.

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu, y profion o gadernid a PCC oll yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau'r canlyniad cynllunio gorau posibl ar gyfer cymunedau. Mae gan y Cyngor gydberthnasau cryf ag awdurdodau cyfagos, yn enwedig Sir Fynwy a Thorfaen. Mae'n galonogol gweld bod gwaith ar y cyd wedi'i wneud mewn perthynas ag opsiynau/gwaith dadansoddi twf tai a thwf economaidd a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Rydym hefyd yn nodi bod y Papur Cefndir ar yr Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy yn seiliedig ar fethodoleg ar y cyd a grëwyd gan Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru, wedi'i adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod y CDLI mewn sefyllfa gref i symud ymlaen i'r cynllun Adneuo er mwyn dangos sut mae'r cydberthnasau/materion hyn wedi dylanwadu ar y strategaeth ac, yn ddiweddarach, dyraniadau safle, cynigion a pholisïau'r cynllun.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys materion manylach yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau'n tanlinellu nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn ein barn ni, er mwyn ystyried bod y cynllun yn 'gadarn'. Rydym wedi nodi lle nad yw tystiolaeth o gadernid yn amlwg ar unwaith a lle dylid gwella neu atgyfnerthu'r sail dystiolaeth wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Ymhlith y meysydd allweddol mae'r canlynol:

- Cyflawni a gweithredu
- Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Ynni Adnewyddadwy
- Mwynau

Argymhellwn yn gryf y dylid ymdrin â'r materion hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch CDLI gael ei ystyried yn 'gadarn' ar y cam Adneuo.

Fel bob amser, byddem yn eich annog i gael eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylid cyflawni gofyniad i Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, os bydd yn briodol, er mwyn asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau yr arweinir gwaith datblygu gan gynllun yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn eich cynorthwyo wrth baratoi eich cynllun Adneuo ac yn sicrhau yr ystyrir bod eich CDLI yn 'gadarn' ac y caiff ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Mae fy nghydweithwyr yn edrych ymlaen at gyfarfod â chi a'ch tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn.

Yn gywir,



## **Atodiad** i Lythyr Llywodraeth Cymru 20 Chwefror 2020 mewn ymateb i CDLI Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Strategaeth a Ffefrir

### **Lefelau Twf: Cartrefi a Swyddi**

Mae'r polisi cenedlaethol yn dweud bod yn rhaid i CDLIau gynnwys strategaeth ofodol ar gyfer oes y cynllun sy'n sefydlu patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn sicrhau gwaith datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd. Rhaid i'r system gynllunio ganolbwyntio ar fodloni'r gofyniad tai a'r cyflenwad tir cysylltiedig.

Mae'r ACLI wedi profi nifer o senarios sy'n seiliedig ar faterion demograffig, cyflogaeth ac anheddau er mwyn llywio'r cynllun. Cynigir cynnydd o 1,755 o gartrefi (117 o anheddau y flwyddyn) (gofyniad tai), ynghyd â hyblygrwydd o 21% sy'n arwain at 2,115 o unedau. Dros gyfnod y cynllun (2018-2033), darperir rhwng 3 a 45 hectar o dir cyflogaeth er mwyn cynnig hyd at 3,375 o swyddi ychwanegol, er mai'r targed swyddi gofynnol ar gyfer y cynllun yw 1,500, yn bennaf yn y diwydiant technegol. Mae'r lefel tai a gynigir tua 1,470 o unedau yn uwch na phrif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn 2014 a 950 o unedau yn uwch nag amrywiolyn mudo 10 mlynedd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad bod tueddiadau dirwasgiad wedi dylanwadu'n gryf ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ac nad ydynt yn rhoi sylfaen briodol i lunio'r strategaeth twf. Maent yn niwtral o ran polisi a byddent yn cynnal y tueddiadau presennol o ran allfudo a'r lleihad yn y boblogaeth, yn enwedig ymhlith y rhai economaidd weithgar, gan fethu â mynd i'r afael â'r amrywiaeth o faterion y cyfeirir atynt yn y cynllun. Mae lefel y cynnydd yn nifer y cartrefi (117 o anheddau y flwyddyn) ychydig yn uwch na'r gyfradd adeiladu dros y 10 mlynedd diwethaf (94 o anheddau y flwyddyn) a'r gyfradd adeiladu dros y 15 mlynedd diwethaf, sef 99 o gartrefi. Mae'r gofyniad tai 1,750 o unedau yn llai na gofyniad y CDLI mabwysiedig, sef 3,500 o gartrefi.

Mae'r Cyngor yn cynnig y dylid defnyddio senario byrdymor PG (141 o anheddau y flwyddyn) fel y ddarpariaeth (uchelgais uchaf) ar gyfer y cynllun; caiff y gofyniad ei seilio ar senario sy'n seiliedig ar anheddau (117 o anheddau y flwyddyn). Mae hyn yn caniatáu darpariaeth uchelgeisiol sy'n cynnig hyblygrwydd o 21% i sicrhau y gellir bodloni'r gofyniad tai, neu os bydd y cynllun yn llwyddiannus, atal y lleihad yn y boblogaeth a chynyddu sector y gweithlu economaidd weithgar, er mwyn sicrhau mwy o fuddiannau economaidd a chymdeithasol. Mae hyn yn galonogol o ran cynllunio. Mae'r Cyngor yn nodi diddordeb cynyddol gan yr adeiladwyr tai mawr sy'n dychwelyd i ardal y farchnad leol, ond byddai defnyddio cyfradd twf fyrdymor PG (141 o anheddau y flwyddyn) fel gofyniad yn arwain at broblemau o ran cyflawnadwyedd a hyfywedd ar hyn o bryd. Ystyrir bod y gofyniad arfaethedig yn gyflawnadwy ac y bydd yn sicrhau cynnydd bach o tua 2% yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun. Hefyd, er y byddai lleihad o 420 o bobl o hyd yn y boblogaeth oedran gweithio dros gyfnod y cynllun, byddai modd cyflawni'r uchelgais economaidd i ddarparu 1,500 o swyddi o leiaf, fel y nodir yn ymrwymiad y Cymoedd Technoleg, gan gynyddu'r gyfradd gweithgarwch economaidd i lefel cyfartaledd Cymru, lleihau llifau cymudo a chynnig cyflogaeth i 3,150 o bobl ychwanegol ar ddiwedd cyfnod y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Cyngor wedi ystyried yr amcanestyniadau diweddaraf, ynghyd ag ystyriaethau polisi perthnasol eraill a nodir ym mharagraffau 4.2.6 – 4.2.8 (PCC, Argraffiad 10). **Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i lefel y cartrefi a'r swyddi a gynigir i gynyddu ffyniant a chyflogaeth ac atal lleihad yn y boblogaeth, yng nghyd-destun yr hyn y gellir ei gyflawni yn y Fwrdeistref Sirol (PPC, paragraff 4.2.2, 4.2.6).**

### **Strategaeth Ofodol – Graddfa a Lleoliad Twf**

Nod yr opsiwn gofodol a ffefrir gan y Cyngor (Opsiwn 5: Twf Economaidd Cynaliadwy) yw canolbwyntio'r twf yn seiliedig ar yr asesiad/hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, gyda 45% o'r gwaith ailddatblygu yn cael ei gyfeirio i Haen 1 Glynebwy, a 50% i aneddiadau Haen 2 eraill yn Ardal Blaenau'r Cymoedd, gan wneud y defnydd gorau posibl o dir llwyd a sicrhau bod y gwaith datblygu'n digwydd mewn ardaloedd mwy hyfyw. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar Bapur Asesu Aneddiadau, ac mae methodoleg y papur hwn yn fanwl, yn sensitif ac wedi'i phwysoli tuag at feini prawf cynaliadwyedd, yn enwedig agosrwydd

at opsiynau trafndiaeth gyhoeddus cynaliadwy a'u hamlder, cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau. **Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r dull gweithredu hwn ar y cyfan.**

Mae Mantolen Tai 'Tabl 7' y Papur Cefndir ar y Cyflenwad Tai yn egluro elfennau'r cyflenwad tai, ac mae'n nodi y bydd angen i 833 o unedau newydd gael eu dyrannu yn y dyfodol, yn ychwanegol at y safleoedd banc tir (ymrwymadau a hap-safleoedd a nodwyd). Mae Polisi SP1 yn nodi bod dyraniadau defnydd cymysg strategol yn y Gweithfeydd, Coridor Gogledd Glynebwy a chyn Ysgol Gyfun Nant-y-glo yn safleoedd defnydd cymysg strategol allweddol posibl sydd, ym marn y Cyngor, yn cydymffurfio â'r strategaeth ac y gellid, yn unol â gwaith mireinio pellach, eu cynnwys yn y cynllun Adneuo. Mae Polisi 8: Cyflenwi Cartrefi ac Atodiad 6 i'r cynllun yn nodi'n glir ddsbarthiad gofodol arfaethedig y twf mewn tai fesul elfen o'r cyflenwad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol i'r gwaith technegol i asesu'r cyflenwad o safleoedd banc tir (ymrwymadau a hap-safleoedd) yn y Papur Cefndir ar y Cyflenwad Tai. **Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i'r strategaeth ofodol a graddfa a lleoliad y twf.**

### **Darparu Safleoedd a'u Rhoi ar Waith**

Bydd cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar allu'r awdurdod i ddyrannu safleoedd sy'n hyfyw ac yn gyflawnadwy yn unol â'r strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) drafft yn nodi'r materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw (ym Mhennod 5), a dylai'r Cyngor sicrhau bod y cynllun Adneuo yn cynnwys yr holl agweddau perthnasol, gan roi sylw arbennig i'r rhestr wirio dileu risg. Er mwyn dangos sut y caiff safleoedd eu darparu a'u rhoi ar waith, **mae'n rhaid i'r cynllun Adneuo gael ei ategu gan waith hyfywedd, cynllun seilwaith a thaflywyr tai cadarn i'w cynnwys yn atodiad y cynllun.** Mae'n rhaid i'r cynllun Adneuo fynd i'r afael â'r canlynol:

- Wrth ganolbwyntio ar ddatblygu safleoedd defnydd cymysg allweddol mawr, rhaid i'r awdurdod ddangos bod y safleoedd yn ariannol hyfyw ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun. Rhaid i'r safleoedd allweddol gael eu hategu gan dystiolaeth, gan gynnwys fframweithiau sgematig, gwybodaeth am hyfywedd, costau, camau, amseru, gofynion seilwaith allweddol, Cynllun Seilwaith a thystiolaeth o ymrwymiad gan ddatblygwyr drwy Ddatganiadau Tir Cyffredin, i ddangos eu bod wedi'u darparu.
- Tystiolaeth i ddangos sut y caiff yr holl safleoedd eraill a ddyrennir eu darparu, gan gynnwys safleoedd a gaiff eu 'cario drosodd' o'r CDLI presennol.
- Paratoi astudiaeth hyfywedd lefel uchel i lywio targedau tai fforddiadwy, a gwaith hyfywedd penodol i safleoedd lle bo'n briodol, gan sicrhau cysondeb â'r rhaniad deiliadaeth a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.
- Dylai'r cynllun nodi'n glir ddsbarthiad gofodol elfennau'r ddarpariaeth tai yn unol â'r tablau a nodir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Tabl 4 ac Atodiadau 2-5) sydd, gyda'i gilydd, yn nodi dosbarthiad gofodol y ddarpariaeth tai yn y cynllun, y taflywyr tai ac amseriad a chamau holl elfennau'r cyflenwad yn ôl haen aneddiadau.
- Paratoi taflywyr tai wedi'i ategu gan ddadansoddiad a dealltwriaeth o amseroedd datblygu, y cysylltiad rhwng y safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion seilwaith, dwysedd a ffrydiau ariannu, ynghyd â thybiaethau cadarn ar hap-safleoedd
- Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn nodi hyblygrwydd o 10% fel man cychwyn, gyda thystiolaeth gadarn o unrhyw amrywiad. Mae angen i'r ACLI ddangos bod digon o hyblygrwydd ar adegau allweddol yng nghyfnod y cynllun drwy'r taflywyr. Bydd Datganiadau Tir Cyffredin yn helpu i gadarnhau amseriad pob safle a'r camau sy'n gysylltiedig â nhw. Dylai'r taflywyr ddangos faint o hyblygrwydd sy'n bodoli drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae lwfans hyblygrwydd y Cyngor o 21% wedi'i bennu am reswm penodol, yn unol â senario twf Byrdymor PG (i gynllunio mewn modd cadarnhaol ac unioni materion cymdeithasol ac economaidd) a'r lwfans peidio â chyflawni safleoedd. Felly, dylid sicrhau bod yr ACLI yn cynnal y lwfans hwn gan ei fod yn allweddol i'r strategaeth. Dylid gwneud iawn am unrhyw golledion yn rhifiadol. Er enghraifft, a oes unrhyw achosion o gyfrif ddwywaith yn y strategaeth cartrefi gwag a'r ddarpariaeth yn y cynllun (5.47 a 5.48 o'r cynllun). Gan nad yw'r cartrefi hyn yn rhai enillion net, dylid eu hystyried wrth drosi'r gyfradd gwacter, a pheidio â'u cynnwys yn y ddarpariaeth fel cyflenwad. Mae angen eglurder ynghylch y mater hwn.
- Gyda chyfyngiadau ar gyfuno ar gytundebau A106, dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn gallu ariannu unrhyw ofynion seilwaith angenrheidiol

### **Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Nid oes Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gyflwyno fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, er bod yr Asesiad cyfredol ar gyfer 2016-2021 ar gael ar wefan y Cyngor. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a pholisi cynllunio, **mae'n rhaid paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gytuno arno cyn y cam Adneuo ar gyfer cyfnod cyfan y cynllun (2018-2033) gyda darpariaeth ar gyfer dyraniadau safle priodol a chyflawnadwy er mwyn diwallu angen a nodwyd o fewn yr amserlenni gofynnol**, os yw hynny'n briodol. Bydd methu â pharatoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a diwallu'r angen yn debygol o arwain at ystyried nad yw'r cynllun yn 'gadarn'. Felly, byddem yn annog yr awdurdod i weithio gydag Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth ar gael erbyn y cam Adneuo. Hefyd, rhaid i'r Cynllun Adneuo gynnwys polisi priodol sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, yn unol â Chylchlythyr 005/2018 diwygiedig Llywodraeth Cymru.

### **Ynni Adnewyddadwy**

Mae cyfran o'r awdurdod o fewn Ardal Blaenoriaeth 14 ar gyfer ynni solar ac ynni gwynt yn y FfDC drafft. Fel y cyfryw, dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC pan gaiff ei gyhoeddi. Er ei bod yn siomedig nad oes Asesiad Ynni Adnewyddadwy ar gael i ategu'r Strategaeth a Ffefrir, mae'r cynllun yn nodi'n glir fod yr asesiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd yn ychwanegol at Brosiectws Ynni Blaenau Gwent, a fydd yn nodi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwresogi dosbarth. Dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Cael ei lywio gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy er mwyn sicrhau "potensial sylweddol" yr ardal i gyfrannu at gynhyrchu cymaint o ynni adnewyddadwy â phosibl. Dylai'r Asesiad alluogi'r awdurdod i esbonio sut y datblygwyd ei ddull polisi ynni adnewyddadwy yn unol â PCC a dogfen Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr Llywodraeth Cymru (2015) gan ystyried yr holl faterion perthnasol a, lle bo'n briodol, wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae'r Pecyn Cymorth yn hwyluso hyn.
- Dangos sut mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i ymgorffori ym mhroses y safleoedd ymgeisiol ac esbonio sut mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio graddfa a lleoliad twf gan gynnwys y safleoedd allweddol.
- Cynnwys cyfraniad ardal y cynllun at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel yn y polisi ac fel rhan o'r fframwaith monitro
- Cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol yn y fframwaith polisi, fel y cynigir yn Atodiad 1 i'r cynllun.

### **Llifogydd**

Dylai'r Cyngor sicrhau na chaiff unrhyw ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed ei ddyrannu i Ardal Gorlifdir C2. Lle ceir datblygiad ym mharth C1, er y gall yr egwyddor datblygu fod yn briodol yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol (yn amodol ar asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, gan ystyried y newid yn yr hinsawdd) y brif ystyriaeth ar gyfer yr ACLI fydd dangos bod dyraniadau'n addas ac yn gyflawnadwy yn unol ag unrhyw fesurau lliniaru a all fod yn ofynnol er mwyn bodloni gofynion y polisi cenedlaethol. Dylai'r awdurdod fod yn ymwybodol o Nodyn Cyngor Technegol 15 newydd Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd yn yr hydref) o ran dyraniadau a'r fframwaith polisi o fewn y cynllun.

### **Mwynau**

Fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2<sup>il</sup> Ddiwygiad, fersiwn ymgynghori), mae angen dybryd am gronfeydd wrth gefn a ganiateir newydd o gerrig mân yn yr awdurdod, gan fod llai na'r gofyniad banc tir 10 mlynedd gofynnol yn weddill. Rhaid i'r cynllun adneuo nodi safleoedd addas i fodloni'r gofynion banc tir a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Rhaid i'r awdurdod hefyd ddangos ei fod wedi cydweithio â'r awdurdodau yn isranbarthau blaenorol Gwent (Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy) a llunio datganiad cydweithredu isranbarthol, y mae'n rhaid i Weithgor Agregau Rhanbarthol y De gytuno arno.

### **Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) yn nodi'n glir mai tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas, ac y dylid ei warchod. Wrth ystyried y drefn chwilio am safleoedd a pholisïau'r cynllun datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu yn gynnar yn y broses (PCC, paragraff 3.55). Mae'r ystyriaethau (Adran 2.21 o'r cynllun) yn nodi'r ffactorau a

ystyriwyd wrth asesu opsiynau strategol gofodol ar gyfer y CDLI. Nodir yn glir y dymuniad i ddefnyddio safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas a'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Croesewir hyn ac mae'n amlwg ei fod wedi'i ystyried wrth asesu opsiynau'r Cynllun Gofodol a dewis yr opsiwn a ffeffrir. Mae'r opsiwn a ffeffrir yn manteisio i'r eithaf ar safleoedd tir llwyd ac felly'n lleihau'r angen i ddatblygu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad ffurfiol ar y sail ond hoffai wneud y sylwadau canlynol y mae angen eu hegluro:

**Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol** - Mae'r adroddiad cwmpasu yn nodi, o dan Tir Amaethyddol (t 144) fod Ffigur 30 yn dangos bod y mwyaf o'r tir amaethyddol ym Mlaenau Gwent yn dir gradd 5, gydag ardaloedd ym mhen deheuol y fwrdeistref yn rhai gradd 4. Mae gradd 4 yn cyfeirio at dir amaethyddol o ansawdd gwael ac mae gradd 5 yn cyfeirio at dir amaethyddol o ansawdd gwael iawn. Nid oes gan y fwrdeistref unrhyw dir gradd 1, 2 na 3a, sef y tair gradd uchaf y cyfeirir atynt fel y tir 'Gorau a Mwyaf Amlbwrpas' ac sy'n cael eu diogelu rhag gwaith datblygu i raddau helaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes unrhyw dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn y fwrdeistref, ond byddem yn cwestiynu ffynhonnell y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad cwmpasu. Mae'r map o raddau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn yr adroddiad cwmpasu ar gyfer Blaenau Gwent (Ffigur 30) yn nodi mai ffynhonnell y wybodaeth yw "CNC 2016". Nid yw'n glir a yw'r data yn seiliedig ar Fap 'Dros Dro' y Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr, a ddiddymwyd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2017. Er mwyn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i fodloni gofynion y Polisi Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, mae'r Adran wedi llunio Map Rhagweld Categorïau Tir Amaethyddol Cymru (2017). Mae'r map hwn ar gael i'w weld, a gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ei lawrlwytho o <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>. Lluniwyd y map hwn i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau hyddysg am ansawdd tir amaethyddol a chymhwyso'r Polisi Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar gam cynnar wrth ddatblygu'r cynllun, ac fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith cynllunio strategol ac arfarnu cynaliadwyedd. Os oes gan yr adran wybodaeth fanwl o arolwg dosbarthiad tir amaethyddol ar gyfer safle, mae hyn hefyd wedi'i ddangos ar y map. Mae'r Adran hefyd wedi llunio canllawiau ar y defnydd o'r Map Rhagweld Categorïau Tir Amaethyddol ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/categoriâu-tir-amaethyddol-cyngor-ar-y-map-rhagweld.pdf>. Felly, mae angen adolygu'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad Cwmpasu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth orau sydd ar gael yn cael ei defnyddio drwy Fap Rhagweld Categorïau Tir Amaethyddol Cymru.

### **Tai Fforddiadwy**

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn nodi gofynion y polisi tai fforddiadwy (ym Mhennod 5) ac mae'n rhaid cynnwys:

- Targed polisi ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Dylai'r targed tai fforddiadwy yn y cynllun gynnwys holl elfennau'r cyflenwad er mwyn sicrhau bod y dyhead yn realistig ac at ddibenion monitro.
- Nodi sut y caiff targed y cynllun ei gyflawni gan ddefnyddio dulliau polisi a nodwyd a fydd yn cynnwys targedau a throthwyon penodol i safleoedd. Mae angen i dargedau polisi heriol fod yn seiliedig ar y dystiolaeth o hyfywedd ac yn gymwys i'r mwyaf o geisiadau
- Cynnwys tabl sy'n nodi'r elfennau tai fforddiadwy a'u dosbarthiad gofodol yn yr hierarchaeth aneddiadau yn glir.

### **Cyflogaeth – Eglurder a diwyg yn unol â'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu a pholisi cenedlaethol**

Dylai'r CDLI Adneuo wneud y canlynol:

- Rhestru'r dyraniadau cyflogaeth strategol a lleol ym mholisi'r CDLI yn glir gan gynnwys hyd a lled pob safle cyflogaeth (ha), ei ddefnydd Dosbarth B arfaethedig a'i gyfraniad at y cynnydd mewn swyddi, yn ogystal ag esboniad o'i ddosbarthiad gofodol a sut y caiff ei ddarparu.
- Cynnwys rhestr o safleoedd cyflogaeth presennol allweddol i'w cadw at ddibenion cyflogaeth mewn polisi diogelu ar wahân. Nid yw'n glir o'r geiriad presennol a yw'r safleoedd i'w diogelu wedi'u rhestru yn Nhabl 7 gan fod y derminoleg ar gyfer safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd/dyrannwyd yn cael ei defnyddio'n gyfnewidiol.
- Cynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu ceisiadau cyflogaeth newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig a rhoi cymorth i'r economi wledig drwy ehangu busnesau sydd eisoes yn bodoli, ailddefnyddio neu addasu adeiladau presennol, hunangyflogaeth a microfusnesau (TAN 6).
- Cynnwys polisi ar wahân ar arallgyfeirio ffermydd, lle bo hynny'n briodol
- Nodi'r safleoedd cyflogaeth sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

\*\*\*\*\*